

## Y PWYLLGOR ADOLYGU GWEITHREDOL

5 Gorffennaf 2017

Yn bresennol: Mr A Archer (yn dirprwyo ar ran Mrs J James), y Cynghorydd K Doolin, Ms C Gwyther, y Cynghorydd P Harries, y Cynghorydd PJ Morgan, Mr AE Sangster a'r Cynghorydd S Yelland

(Swyddfeydd APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 12:30pm - 2:15pm)

- 1. Penodi Cadeirydd**  
**PENDERFYNWYD** y dylid penodi'r Cynghorydd K Doolin yn Gadeirydd am y flwyddyn.
- 2. Penodi Is-gadeirydd**  
**PENDERFYNWYD** y dylid penodi'r Cynghorydd S Yelland yn Is-gadeirydd am y flwyddyn.
- 3. Ymddiheuriadau**  
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mrs J James, y Cynghorydd ML Evans a'r Cynghorydd A Wilcox.
- 4. Datgelu buddiant**  
Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiant.
- 5. Cofnodion**  
Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u llofnodi.  
**PENDERFYNWYD** fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2017 yn cael eu cadarnhau a'u llofnodi.
- 6. Castell a Melin Heli Caeriw**  
Rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Ymwelwyr y De drosolwg i'r Pwyllgor o'r safle yng Nghaeriw, gan gynnwys ei werth o ran cadwraeth, y gwasanaethau a ddarperir, nifer yr ymwelwyr ac incwm, datblygiadau diweddar a datblygiadau'r dyfodol, yn ogystal â blaenoriaethau'r dyfodol.  
  
Gan ddiolch iddi am ei chyflwyniad, dechreuodd yr Aelodau drwy ofyn am y nwyddau a oedd ar gael i gefnogi'r safle fel Safle Darganfod Awyr Dywyll. Atebodd y Rheolwr na fu galw am gynnyrch o'r fath hyd yma. Fodd bynnag, byddai'n cynnal adolygiad o nwyddau brand y Parc Cenedlaethol ym mhob safle yn y Parc cyn bo hir a byddai'n rhoi ystyriaeth bellach i hyn, sy'n sector sy'n datblygu.



Mynegodd y Pwyllgor gefnogaeth ar gyfer darparu caffi ar y safle a gofynnwyd am y costau tebygol, incwm a'r cyfnod ad-dalu. Darparodd y Rheolwr rai ffigurau amcangyfrifedig ac eglurodd y byddai cynllun busnes yn cael ei lunio yn y misoedd nesaf, gyda'r gobaith y byddai'r caffi ar agor y tymor nesaf. Ychwanegodd mai'r diffyg cyfleusterau arlwyyo ar y safle, ynghyd â phrinder lleoedd parcio, oedd dau o'r heriau mwyaf a wynebir gan y safle. Byddai'r problemau strwythurol gyda sarn Llyn y Felin yn cael eu trafod gan y Swyddog Prosiectau Adeiladu yn ei adroddiad i'r Pwyllgor (gweler Cofnod 8). Roedd heriau hefyd sy'n gysylltiedig â'r brydles bresennol.

## **NODWYD.**

### **7. Hyfforddeiaeth Sgiliau ar Waith – Adolygu'r Prosiect**

Eglurodd Arweinydd y Tîm Darganfod fod Sgiliau ar Waith yn brosiect tair blynedd a gefnogir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a oedd yn darparu 12 o leoliadau blynyddol bob blwyddyn yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Roedd y cymhwyster City and Guilds Lefel 2 mewn rheoli cadwraeth yn ganolog i'r hyfforddeiaeth ynghyd â'r cyfle i ddysgu sgiliau newydd a chaffael gwybodaeth drwy weithio gyda thimau rheoli ystadau / cadwraeth y Parc Cenedlaethol. Byddai'r prosiect yn dod i ben ym mis Awst.

Yna, dangoswyd ffilm i'r Pwyllgor a oedd yn dangos rhywfaint o'r gwaith a wneir gan yr hyfforddeion. Dilynwyd hynny gan gyfraniad gan un o'r Wardeniaid a oedd yn ymwneud â'r gwaith o'u goruchwyllo o ddydd i ddydd. Cafwyd cyfraniad gan hyfforddai blaenorol a phresennol a chan Barcmon Gweithgarwch Arfordirol Gogledd Sir Benfro yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol y bu'r hyfforddeion yn gweithio gydag ef am gyfnod. Roedd yr holl adborth yn gadarnhaol, ac roedd balchder mawr yn yr hyn y mae'r hyfforddeion wedi'i gyflawni. Bonws ychwanegol oedd y cynnydd mewn gwaith partneriaeth.

Cafwyd diweddariad gan y Cydlynnydd Sgiliau ar Waith am yr hyn a oedd wedi digwydd i'r hyfforddeion. O'r 15 a fu'n gweithio gydag APCAP, roedd 12 mewn Addysg Uwch neu gyflogaeth, roedd 11 o'r rheini yn y sector cefn gwlad a 3 yn y Parc Cenedlaethol. Byddai gwerthusiad allanol yn cael ei wneud o'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd; fodd bynnag, yn unigol roedd yr hyfforddeion o'r farn iddo fod yn werthfawr iawn ac wedi eu helpu i gael gwaith. Mantais ychwanegol oedd y ffaith bod y Wardeiniaid wedi cael sgiliau ychwanegol mewn iechyd a digelwch neu addysg oedolion fel y gallent helpu hyfforddeion i ddysgu yn y gweithle.

Ychwanegodd y Swyddogion na fu'r cais pellach i ymestyn y prosiect yn llwyddiannus, er y byddent yn ystyried cynlluniau eraill megis yr Ardoll



Brentisiaethau. Y flwyddyn nesaf, roedd digon o gyllid ar gyfer 3 hyfforddai am gyfnod o chwe mis.

## **NODWYD.**

### **8. Cynnal a Chadw Adeiladau Awdurdod y Parc Cenedlaethol – Adroddiad Blynyddol 2016/17**

Roedd adroddiad y Swyddog Prosiectau Adeiladu yn rhoi trosolwg o gynnal a chadw adeiladau'r Awdurdod, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol Cynnal a Chadw Adeiladau 2016/17 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad. Nodwyd fod Atodiad newydd wedi ei anfon at yr Aelodau. Roedd gan yr Awdurdod 49 o adeiladau / strwythurau, heb gynnwys meysydd parcio neu ddaliadau tir, a oedd naill ai yn rhai rhydd-ddaliad neu ar brydles. Roedd amrywiaeth eang o ran oedran, math ac arwyddocâd a'r nod pennaf oedd sicrhau bod pob un yn addas at y diben. Roedd y gwaith yn rhagweithiol ac yn adweithiol o fewn y gyllideb cynnal a chadw flynyddol o rhwng £90,000 a £100,000; fodd bynnag, gan fod cost yr holl waith a nodwyd yn aml tua £250,000, rhaid oedd blaenoriaethu ac roedd angen cyfalaf neu arian allanol.

Yn ychwanegol at y gwaith cynnal a chadw ffisegol, barnwyd mai da o beth hefyd fyddai sicrhau bod yr adeiladau mor 'wyrdd' ag y bo modd. Gwaed arbedion carbon sylweddol o ganlyniad i leihau'r defnydd o ynni.

Gofynnodd yr Aelodau am y materion cynnal a chadw mawr ar sarn Caeriw a dywedwyd fod y gollyngiadau yn y strwythur yn cael eu monitro yn wythnosol a'u hadrodd wrth beirianwyr y gronfa a benodwyd gan yr Awdurdod, er mwyn dod o hyd i opsiynau a chostau (roedd hyn yn ofyniad statudol o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975). Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod y gwaith cynnal a chadw ar y sarn yn rhan o'r brydles.

## **NODWYD.**

### **9. Pwyth mewn Pryd – Y Diweddaraf am y Prosiect**

Atgoffwyd y Pwyllgor mai nod y prosiect uchod, a gefnogwyd yn wreiddiol gan y Gronfa Datblygu Cynaliadwy (y Gronfa), oedd ceisio rheoli tair rhywogaeth anffrodorol oresgynnol ar sail dalgylch gyfan – clymog Siapan, Jac y Neidiwr a *Rhododendron ponticum* – gan ganolbwyntio ar Gwm Gwaun.

Cafwyd cyflwyniad ar hynt y gwaith ers i gam y Gronfa o'r prosiect gael ei gwblhau yn 2016 gan fod yr Awdurdod wedi ariannu estyniad o 15 mis i barhau â'r prosiect tra'r oedd ceisiadau am gyllid allanol yn cael eu paratoi. Derbyniodd y prosiect £100,000 arall gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2017.



Fel rhan o'r estyniad i'r prosiect, cynhaliwyd asesiad bwrdd gwaith o'r gwasanaethau ecosystemau o gam y Gronfa o'r prosiect, ac roedd copi ohono ynghlwm wrth yr adroddiad.

Roedd yr aelodau'n falch o weld effaith y prosiect a bod cynnydd mewn bioamrywiaeth yn sgil hynny. Gofynnwyd a oedd manylion cyswllt ar gael i'r cyhoedd pe byddent yn dod ar draws clymog Siapan, a dywedodd cydlynnydd y prosiect fod nifer o arwyddion wedi cael eu codi yn dangos rhif cyswllt ac roedd yr hanes hefyd wedi mynd ar led yn y gymuned. Un o fanteision ychwanegol y prosiect oedd gwell gwaith partneriaeth yn y maes hwn gyda Chyngor Sir Penfro a Cyfoeth Naturiol Cymru.

## **NODWYD.**

### **10. Adroddiad am Berfformiad am y Cyfnod yn diweddu 31 Mai 2017**

Soniwyd fod yr adroddiad perfformiad wedi'i addasu i ddilyn strwythur y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2016-17, a oedd yn dilyn dull Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda saith amcan llesiant ac adran ychwanegol a oedd yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am lywodraethu. Cyflwynwyd nifer o fesurau newydd i adlewyrchu'r camau gweithredu yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2017/18.

Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at y perfformiad hyd at 31 Mai, ac roedd gwaith wedi dechrau ar y rhan fwyaf o'r camau. Fodd bynnag, lle'r oedd y data yn cael ei gasglu bob chwarter, ni fyddai'r ystadegau ar gael tan ddiwedd mis Gorffennaf a byddent felly yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Roedd gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys ar ddiwedd yr adroddiad yn egluro'r ystadegau gorfodi ym maes cynllunio ar gyfer 2016/17 yn dilyn cwestiwn a godwyd yn y Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol. Roedd y swyddogion bellach wedi adolygu'r data a'r modd y cânt eu cyflwyno a byddent yn y dyfodol yn cael eu coladu a'u cyflwyno yn unol â'r dangosyddion statudol ar gyfer achosion gorfodi yr ymchwiliwyd iddynt a'r camau gorfodi a gymerwyd.

O ran gorfodi, dywedodd un Aelod mai'r rheswm a roddwyd am berfformiad isel oedd bod un o'r swyddogion ar absenoldeb mamolaeth a gofynnodd a oedd ystyriaeth wedi cael ei rhoi i gyflogi un yn ei lle. Dywedwyd wrtho fod anawsterau wrth recriwtio; fodd bynnag, roedd swyddog cynllunio wedi ymdopi â rhan o'r swydd gyda'r gweddill yn cael ei wneud gan ymgynghoriaeth.

Roedd un Aelod hefyd yn falch o weld y cam gweithredu ynglŷn ag eiriolaeth, sy'n ymwneud â thrydydd diben y Parc Cenedlaethol, yn cael ei gydnabod mewn deddfwriaeth, a gofynnodd am y wybodaeth ddiweddaraf am hyn. Atebodd y Prif Weithredwr fod Gweithgor Tirweddau'r Dyfodol Cymru yn parhau i gyfarfod ac y



byddai'r mater hefyd yn cael ei godi yn y cyfarfod gyda'r Gweinidog a fyddai'n cael ei gynnal yn ystod y misoedd nesaf.

Penderfynwyd **DERBYN** yr Adroddiad am Berfformiad.

#### **11. Y Gofrestr Risg**

Dywedodd y Rheolwr Cyllid fod y gofrestr risg wedi'i hadolygu gan y Timau Rheoli ac Arwain a bod y cynnydd a'r newidiadau diweddar wedi'u nodi. Amlinellwyd newidiadau sylweddol yn y risgiau yn yr adroddiad, ac roedd y gofrestr lawn yn atodedig at sylw'r Aelodau. Roedd dau newid sylweddol mewn risgiau - adroddiad gan yr Arolygwyr Cronfeydd Dŵr ar gyflwr wal sarn Melin Caeriw a oedd yn awgrymu bod angen atgyweiriadau mawr o fewn y deuddeg mis nesaf, a hysbysiad gan Coed Cymru am eu penderfyniad i dynnu'n ôl o'r trafodaethau am safle Cilrhedyn.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw gynlluniau pellach ar gyfer safle Cilrhedyn ac a oedd Coed Cymru yn debygol o ddod yn ôl gyda chynnig gwahanol yn y dyfodol. Atebodd y swyddogion y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod yn y chwech i ddeuddeg mis nesaf. Fodd bynnag, bu gostyngiadau sylweddol yng nghostau rhedeg y Ganolfan ac roedd y safle yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd fel canolfan Wardeiniaid. Er nad oedd y swyddogion yn ymwybodol o unrhyw gynlluniau gan Coed Cymru, roeddent yn bartner naturiol yn y safle ac roedd rhai o'u staff bellach wedi'u lleoli yno.

Gofynnwyd cwestiwn hefyd am brydles Canolfan Ymwelwyr Dinbych-y-pysgod sydd wedi cau erbyn hyn. Atebodd y Swyddogion fod y trafodaethau'n parhau, a bod parcmon tymhorol wedi'i gyflogi yn ardal Dinbych-y-pysgod fel rhan o'r cynlluniau i ddarparu gwasanaethau yn wahanol ac roedd yn gwneud gwaith gwych.

**NODWYD.**

#### **12. Y Flaenraglen Waith**

Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol ystyried adroddiadau yn amlinellu gwaith Canolfannau'r Awdurdod, a'r timau cadwraeth a darganfod. Fodd bynnag, roedd hwn yn gyfle i'r aelodau awgrymu unrhyw feysydd yr hoffent gael gwybodaeth fanylach amdanynt. Dywedodd yr Aelodau fod yr holl gyflwyniadau a gawsant yn llawn gwybodaeth ac yn rhoi cipolwg diddorol ar waith yr Awdurdod.

[Cyflwynodd y Cynghorydd S Yelland ei ymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod ar y pwynt hwn.]



13. **Y Grŵp Gwelliant Parhaus: dirprwyo materion**  
**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd angen eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried.

